



Dydd Gwener, 14 Hydref 2016

Annwyl

Parthed: Ymglymiad Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru

Gwasanaeth dwyieithog i Gymru gyfan fydd Canolfan Gyfreithiol y Plant (CLC), a bydd yn darparu gwybodaeth a mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc, gan gyfrannu data y sicrhawyd eu bod yn ddiennw a chraffter a gafwyd drwy ddarparu gwasanaeth i gronfa o dystiolaeth ymchwil, ac eirioli dros ddiwygio'r gyfraith, polisi ac ymarfer.

Amcanion CLC yw:

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth;
- Hyrwyddo diwygio'r gyfraith, polisïau ac arferion;
- Hyrwyddo hawliau a chyfranogiad plant;
- Darparu addysg, hyfforddiant ac ymgynghori;
- Ategu gwasanaethau presennol a ddarperir gan y sectorau gwirfoddol, cymunedol, statudol a chyfreithiol;
- Gweithio mewn partneriaeth â phlant, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill.

Mae CLC yn fenter gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor, ac mae'n ymwneud yn helaeth â rhanddeiliaid mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y proffesiynau cyfreithiol, cyrff proffesiynol, y farnwriaeth, sefydliadau yn y trydydd sector, cyrff cyhoeddus, ysgolion a sefydliadau ieuencid yng Nghymru.

O fis Awst 2017, bydd CLC yn dechrau cynnig cynrychiolaeth, addysg, gwybodaeth ac ymgynghori ynghylch y gyfraith yng Nghymru a'i heffaith ar blant a phobl ifanc drwy ddulliau digidol ac wyneb i wyneb. Heb ddarpariaeth gymharol ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru, bydd CLC yn ategu ac yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a ddarperir gan y sectorau gwirfoddol, cymunedol, statudol a phreifat a bydd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddefnyddio asiantaethau mewn penderfyniadau a phrosesau sy'n effeithio arnynt, gan sicrhau canlyniadau sy'n diogelu, yn parchu ac yn cynnal eu hawliau dynol.

Wrth edrych ymlaen at lansiad CLC yn 2017, mae gwaith paratoadol sylweddol ar y gweill i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â Chanolfannau Cyfreithiol sy'n arbenigo mewn cyngor i blant a phobl ifanc, gan ddysgu o wahanol fodolau o Glinigau Cyfraith Prifysgol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Unol Daleithiau America a gweddill y byd; ac o ymchwil helaeth i Addysg Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc, cynllunio ariannol a chynllunio busnes. Rydym yn ystyried cyfraith a pholisïau ôl-ddatganoli yn ein holl waith, gan gynnwys cyfreithiau unigryw 'syllw dyledus' o ran hawliau plant, y mae eu gweithredu'n effeithiol yn flaenoriaeth yn holl weithgareddau'r Arsyllfa.



A hoffech gyfrannu?

Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant yn chwilio am weithwyr proffesiynol y gyfraith ymroddedig a brwdfrydig i wirfoddoli fel rhan o Rwydwaith Cyfreithwyr CLC yng Ngholeg y Gyfraith a Throsedddeg Prifysgol Abertawe ac Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Rhwydwaith ar ddydd Iau, 17 Tachwedd 2016 am 4:30pm-5:30pm ym Mhrifysgol Abertawe, cyn Darlith Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Darlith. Gweler y manylion isod.

<p>Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Hysbysiad Darlith</p> <p>Dydd Iau 17^{eg} Tachwedd 2016 Prifysgol Abertawe, Darlithfa Richard Price yn dechrau am 6.30 pm</p> <p>Siaradwr: Bydd Yr Arglwydd Kerr, Ustus Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn cynnal sgwrs am:</p> <p>“Amddiffyn plant, gorfodi eu hawliau”.</p> <p>Mae'r ddarlith hon am ddim ac ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Wales Observatory on Human Rights of Children and Young People</p> <p>Notice of Lecture</p> <p>Thursday 17th November 2016 Swansea University, Richard Price Lecture Theatre Commencing at 6.30 pm</p> <p>Speaker: Lord Kerr, Justice of the Supreme Court of the United Kingdom Will give a talk on:</p> <p>“Protecting children, enforcing their rights”.</p> <p>This lecture is free of charge and open to the public</p>
--	---

Bydd y cyfarfod yn gyfle gwych i gael golwg unigryw ar gynnydd CLC hyd yn hyn ac i ymwneud â datblygiad cylch gorchwyl y Rhwydwaith; i ystyried amrywiaeth o ddulliau cymorth ar gyfer gweithgarwch CLC; i rannu gwybodaeth; ac i ddysgu sut y gallwch fod yn rhan o'n cyfres ddarlithoedd 'Plant a'r Gyfraith yng Nghymru' yn 2017.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, diddordeb mewn dod i gyfarfod cyntaf y rhwydwaith neu ddiddordeb mewn cefnogi'r gwaith drwy rodd elusennol, cysylltwch â ni ar unwaith. Yn y cyfamser, dilynwch ni ar Twitter @ChildLegalWales a chadwch lygad am e-ddiweddariadau yn hwyrach yn yr hydref.

Dymuniadau gorau,

Hannah Bussicott
Rheolwr Datblygu Busnes
h.j.bussicott@abertawe.ac.uk 01792-295399